# Cymdeithas y Cymod

Fellowship of Reconciliation in Wales
Rhif Elusen /Charity No 700609

3 Tai Minffordd, Rhostryfan, Caernarfon, Gwynedd LL54 7NF
Ffôn 01286 830913 E-bost post@cymdeithasycymod.org.uk

09/12/2012

Mr. Powell
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Mr Powell

Parthed Deiseb P 04 404

Diolch i chi am anfon copi atom o lythyr Edwina Hart sy'n ymateb i'n deiseb ni ynghylch hedfan yr awyrennau di-beilot o Aberporth*.
Buasem yn ddiolchgar pe baech chi'n gofyn i'r Gweinidog ymateb i'r 7 mater isod:

1) Mae ei llythyr yn nodi fod y 'diwydiant awyr-ofod' yn cyflogi 20, 000 o bobl yng Nghymru, a hynny'n gyflogaeth uniongyrchol. A gawn ni fanylion y rhif hwn, ac yn arbennig o gofio consyrn ein cymdeithas ni, a gawn ni rifau sy'n ymwneud yn benodol â'r sector Awyrennau Dibeilot o fewn y diwydiant hwn?

2) Ymhellach, a gawn ni wybod faint o fewn y sector hwn a gyflogir at ddibenion militaraidd, a faint at ddibenion nad ydynt yn rhai militaraidd?

3) Mae'r llythyr yn nodi fod arbrofion y *Watchkeeper* gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn rhoi 'hwb gwerthfawr i'r economi leol'; tybed a ellir mynegi union faint yr hwb hwn a nodi hefyd faint o bobl leol sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol drwy'r gwaith hwn?

4) Beth yw'r dosraniad rhwng yr elw a gynhyrchir ar gyfer buddsoddwyr o dramor a'r elw a gynhyrchir ar gyfer buddsoddwyr o Gymru yn y diwydiant yn Aberporth?

5) Mae’r llythyr hefyd yn nodi bod cyfyngiadau rheoliadol yn llesteirio tipyn ar y defnydd a wneir o’r UAV gan fod ‘problemau o ran ‘gofod awyr a datblygu technolegau UAV’. A fyddai’r Gweinidog yn esbonio beth yn ei thyb hi sy’n cyfrif am hyn?

6) Yn dilyn o (5) uchod, beth yw ymateb y Gweinidog i’r rhai hynny sy’n credo bod Cymru’n cael ei defnyddio fel maes ymarfer ar gyfer gweithrediadau sydd wedi eu gwrthod gan wledydd eraill oherwydd pryderon ynghylch eu diogelwch?

7) Pryd oedd y tro diwethaf i’r Cynulliad neu’r Awdurdod Lleol ganfasio barn pobl leol am yr hediadau UAV a beth oedd canlyniad arolwg o’r fath?

Gawn ni fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi eto am eich hamser ac am ddod i gwrdd â ni ar risiau’r Senedd yng Nghaerdydd ym mis Hydref.

Edrychwn ymlaen yn eiddgar at dderbyn eich ateb

Yn ddiffuant

*Ar fater o eglurdeb, dylid nodi na dderbyniwyd llythyr y Gweinidog tan wythnos olaf Tachwedd, er bod y llythyr yn ddyddiedig Gorffennaf 25.

Yn gywir

D. Arfon Rhys
Ysgrifennydd
Cymdeithas y Cymod yng Nghymru